Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 22.02.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# DIWEDDARIAD RECRIWTIO: Ffeiriau Swyddi Gwaith Gwynedd

Bydd menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd – mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a MÔN CF – yn cynnal ffair swyddi mewn person ar gyfer pob sector yn Copa, Caernarfon ar 10 Mawrth 2022, (10:00am–2:00pm).

Bydd Gwaith Gwynedd a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn cynnal ffeiriau swyddi ar gyfer pob sector ar draws Gwynedd yn ystod Mawrth ac Ebrill. Cynhelir y cyntaf yn Bala Lake Hotel, Bala, ar 9 Mawrth 2022 (10:00am-2:00pm), gyda dyddiadau yn Nolgellau, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog a Thywyn i'w cadarnhau.

Os ydych yn recriwtio ac yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ar 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Cynhelir y ffair swyddi olaf ar gyfer y sector lletygarwch ar 2 Mawrth 2022, (10:00am-3:00pm), yn VENU, Pwllheli. Mi wnaeth dros 110 o ymgeiswyr am waith a 30 o fusnesau lletygarwch fynychu'r ddwy ffair a gynhaliwyd yr wythnos diwethaf, gyda nifer o swyddi gwag yn cael eu llenwi yn y fan a'r lle!

Gallwch hefyd hysbysebu unrhyw swyddi ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

## TRETH: Llai nag wythnos ar ôl i ffeilio ffurflenni treth Hunanasesiad hwyr

Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) wedi rhybuddio bod rhaid ffeilio ffurflenni treth Hunanasesiad hwyr erbyn 28 Chwefror 2022 i osgoi cosb. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/one-week-to-file-your-self-assessment-return

## GWOBRAU: Dathlu Gwobrau Busnesau Bach 2022 FSB – ceisiadau yn cau 27 Chwefror 2022

Bydd ceisiadau ar gyfer Gwobrau Dathlu Busnesau Bach FSB 2022 yn cau ar 27 Chwefror 2022, gyda rownd derfynol Cymru yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd ar 8 Ebrill 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.fsbawards.co.uk/

## DIGWYDDIAD: Llwybr Arfordir Cymru – Gweminar Croeso Cymru i'r diwydiant 3 Mawrth 2022

Mae Croeso Cymru, ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru a Llwybr Arfordir Cymru, yn cynnal sesiwn ar-lein ar 3 Mawrth 2022, (11:00am-12:00pm), fydd yn cynnwys gwybodaeth ar sut gall busnesau fod yn rhan o'r dathliadau i nodi 10fed penblwydd y llwybr. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3sbw1K0

## YMGYRCH: Dydd Gŵyl Dewi 2022

Pethau Bychain ydi ymgyrch cyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru eleni i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar 1 Mawrth 2022. Os ydych eisiau cymryd rhan, mae pecyn gwybodaeth ar gael ar:

https://bit.ly/3BGQ326

Mae asedau i'w defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol ar gael yn:

https://bit.ly/3H1AC5n

## DIGWYDDIAD: Wythnos Cymru yn Llundain 2022

Mae Wythnos Cymru yn Llundain yn cael ei chynnal i arddangos gweithgareddau a digwyddiadau sy'n dathlu ac yn hyrwyddo popeth sy'n wych am Gymru. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://walesweek.london/cy/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru